CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
11 Mai 2016 AM 7.00 O'R GLOCH YN NEUADD YR YSGOL

YN BRESENNOL
Cyng I Roberts, R G Parry, N Highley, C Ll Thomas, I Rowlands, E Huws, S Parry, K Humphreys

YMDDIHEURIADAU
Cyng D Rees (Cyngor Sir), Cyng N Roberts (Cyngor Sir)

Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts

DATGAN DIDDORDEB - Cyng R G Parry (sedd wag)

DERBYN COFNODION Y CYFARFOD 13 Ebrill 2016
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 13 Ebrill 2016, Cyng C Ll Thomas yn cynnig a Cyng N Highley yn eilio.

MATERION YN CODI O'R COFNODION
Ganmlwyddiant y Rhyfel Mawr - Mae'r Clerc yn disgwyl canlyniad y cais am y grant
Williams Homes Bala - Mae'r Clerc wedi cael ymateb gan Williams Homes, Bala - nid yw Williams Homes yn derbyn cyfrifoldeb am y llwch gan fod ganddynt ganllawiau mewn llaw i leihau llwch ar safle. Ynglŷn a'r mwd ar y ffordd, mae hyn yn anochel gan eu bod yn gorfod cario pridd o'r safle yn ystod tywydd gwlyb, ond yr oedd gan Williams Homes drefniadau mewn lle i lanhau y ffordd ar ddiwedd bob dydd.
Mynwent Llanbeulan - Mae'r gwaith wedi ei gwblhau.
Ceisiadau ariannol Groundworks a Watkin Jones - mewn llaw.
Ffensys maes chwarae (y rhai a ddifrodwyd) - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb
Siec cyfrif y maes chwarae - mewn llaw
Dau sedd wâg - Mae'r Clerc wedi derbyn un cais. Penderfynwyd cynnig y sedd i Mr Gethin Parry. (Gadawodd Cyng R G Parry yr ystafell yn ystod y drafodaeth)
Mwd ar y ffordd - Lon Salem - Gweler uchod
Maes chwarae (trin yr offer) - Mae'r Clerc wedi trio cael mwy nag un pris am y gwaith. Penderfynwyd derbyn yr un pris sydd wedi dod i mewn - Cymunedau yn Gyntaf - £3608.92
Llwybr Cyhoeddus (giat mochyn) - Mae'r Cyngor Sir yn trefnu gwneud y gwaith.

LLOFNOD (Cadeirydd) 8 Mehefin 2016

ADRODDIAD y CADEIRYDD

Cynigodd y Cadeirydd diolchiadau i'r Clerc am ei waith. Hefyd, gofynwyd i'r Clerc anfon llythyr ar y surgery, Bryngwran yn dweud bod y Cyngor Cymuned yn pryderus am cyflwr y wal.

GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
Priffyrdd
Lon Salem - Mae'r Clerc wedi derbyn prisiau am gosod rampiau a "humps" ar Lon Salem. Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir am cyfarfod ar y safle.

GOHEBIAETH YCHWANEGOL
Cynefin (Williams Homes) - gweler uchod

MATERION ARIANNOL
Dim

MATERION ERAILL
Dim

LLOFNOD (Cadeirydd) 8 Mehefin 2016